# Nodiadau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth

# 3 Hydref 2017

**Yn bresennol:**

- David Rees AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol
- Tina Donnelly CBE TD DL, Ysgrifennydd y Grŵp a Chyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

- Richard Jones MBE, Aelod o Fwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Aelod o'r Cyngor dros Gymru
- Helen Whyley, Cyfarwyddwr Cysylltiol Cysylltiadau Cyflogaeth
- Diane Powles, Ymgynghorydd Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Nicola Davis-Job, Cynghorydd Gofal Acíwt ac Arweinyddiaeth
- James Rodaway, Rheolwr Busnes y Gyfarwyddiaeth, Uned Fusnes
- Rosie Raison, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus
- Liz Newton, Cynorthwy-ydd Polisi a Materion Cyhoeddus

- Sharon Williams, Rheolwr Cartref Gofal, Sŵn-y-Môr, Port Talbot
- Alison Magor, Aelod Bwrdd Cymru yng Ngholeg Nyrsio Brenhinol Cymru, Rheolwr Tîm Nyrsys Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Alison Davies, Cyfarwyddwr Cyswllt Arfer Proffesiynol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

- Alexandra (Alex) Kelleher, Nyrs Arweiniol - Grŵp Diddordeb Arbennig Fforwm Gofal Cymru
- Vicki Broad, Pennaeth Gofal Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Will Williams, Cyfarwyddwr Comisiynu Cynorthwyol, Gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Vivien Coughlin, Uwch Nyrs ar gyfer Llywodraethu a Diogelu (Dirprwy Bennaeth Gofal Cymhleth) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Claire Aston, Nyrs Adrannol, Pennaeth Gofal Cymhleth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Rhun ap Iorwerth AC
- Suzy Davies AC
- Caroline Jones AC **Ymddiheuriadau:**

- Angela Burns AC
- Llyr Gruffydd AC
- Neil Hamilton AC
- Neil McEvoy AC
- Simon Thomas AC
- Jean White
- Sue Thomas
- Mario Kreft
- Sian Thomas
- Mandy Rayani
- Jill Patterson
- Rhiannon Jones
- Claire Bevan
- Ruth Walker

- Yr Athro Sue Morgan
- Rhiannon Beaumont Wood
- Rowena Martin
- Tanya Hannant
- Michelle Jones
- Sian Harris
- Shrien Dewani

## 1. *Croeso gan Richard Jones MBE, Aelod o Fwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Aelod o'r Cyngor dros Gymru*

Croesawodd Richard Jones MBE y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai Aelodau'r Cynulliad yn hwyr o ganlyniad i drafodion y Cyfarfod Llawn ac y byddent yn ymuno yn nes ymlaen.

Soniodd Richard mai ffocws y cyfarfod fyddai'r prinder nyrsys mewn Cartrefi Gofal a'r Sectorau Annibynnol yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd.

## 2. *Cyflwyniad - Rheoleiddio ac Arolygu Deddf Gofal Cymdeithasol (2016): Rheoliadau Arfaethedig gan Rosie Raison, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru*

Rhoddodd Rosie Raison orolwg byr o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (2016) gan roi ffocws ar reoliadau Cyfnod 2 a goblygiadau'r rheoliadau ar lefelau staffio gofynnol (yn benodol, y cynnig i ddileu'r isafswm gofynnol mewn perthynas â nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu) a'r Datganiad o Ddiben (SOP).

Codwyd pryderon ynghylch yr amserlen i alluogi'r rheoliadau i gael eu gweithredu.

*Cadarnhaodd Tina Donnelly y byddai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn codi'r pryder hwn yn eu cyfarfod nesaf gyda Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon.*

***Cyflwyniadau gan Richard Jones MBE:*** Cyflwynodd Richard Jones MBE y rhai a oedd yn bresennol i aelodau'r Panel ac fe wahoddodd aelodau'r panel i roi sylwadau rhagarweiniol byr am eu rolau a'r materion sy'n wynebu'r gweithlu o'u safbwyntiau proffesiynol nhw.

## 3. *Sharon Williams, Rheolwr Cartref Gofal, Sŵn-y-Môr, Port Talbot*

Nododd Sharon Williams dri phrif bryder am gartrefi gofal yn deillio o'r rheoliadau drafft:

1. Mae angen nyrsys ar y safle drwy'r amser mewn cartrefi gofal lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu er mwyn ymdrin ag anghenion annisgwyl a chymhleth yr unigolion. Ni fyddai'n beth da i un nyrs gofrestredig fod yn gweithio ar draws sawl safle a allai fod yn filltiroedd ar wahân. Mae'r cynigion hyn hefyd yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y prinder nyrsys sydd ar hyn o bryd.

2. Nid yw'r rheoliadau yn eu ffurf presennol yn ei gwneud yn glir i ba raddau y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn gymwys ar gyfer y rôl. Nid oes gofyn iddynt fod yn nyrs gofrestredig ac felly mae'n bwysig cael mwy o fanylion am hyn. Ar hyn o bryd mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn gwahodd darpar Unigolion Cyfrifol i gael sesiynau briffio ar y rôl.

3. Mae gan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol oblygiadau ariannol, er enghraifft y gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chofrestru deuol.

### *4. Alison Magor, Aelod o'r Bwrdd dros Gymru yng Ngholeg Nyrsio Brenhinol Cymru, Rheolwr Tîm Nyrsys Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*

Nododd Alison Magor fod diffyg staff yn y tîm nyrsys cymunedol ar bob achlysur, yn ogystal ag mewn Meddygfeydd, sy'n ychwanegu at y pwysau sydd ar y tîm.

Caiff nyrsys ardal eu galw i gartrefi gofal yn rheolaidd er mwyn darparu gofal lliniarol o ganlyniad i ddiffyg sgiliau yn y maes hwn ymhlith y timau staff yn y cartrefi

Mae gan reoliadau arfaethedig y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol y potensial i roi mwy o bwysau ar wasanaethau eraill y mae llawer fawr o alw amdanynt eisoes ac sydd hefyd yn mynd y tu hwnt i allu'r staff timau nyrsio ardal, timau y tu allan i oriau ac ati.

### *5. Alison Davies, Cyfarwyddwr Cyswllt Arfer Proffesiynol, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru*

Soniodd Alison Davies am y boblogaeth sy'n heneiddio, sydd ag anghenion cynyddol gymhleth a hirdymor. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig deall lefel yr angen, ac i ddeddfu mewn modd sy'n golygu bod gofal heb ei ail yn cael ei ddarparu.

Mae angen gwneud mwy o waith o ran cyfrifo'r nifer o staff sydd eu hangen mewn cartrefi gofal, ac ar hyn o bryd nid oes adnodd penodol i wneud hyn er bod rhywfaint o waith ar y gweill yn y maes.

O ran y Datganiad o Ddiben (SoP), mae'n rhaid i hyn fod yn eglur o ran sut y bydd anghenion gofal a gofynion staffio yn cael eu diwallu, yn enwedig os yw hyn yn cynnwys adnoddau gan Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'n peri pryder ei bod hi'n cymryd 28 diwrnod i newid y SoP, ac felly nad yw'r SoP yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae yna broblemau recriwtio a chadw mewn cartrefi gofal, mewn perthynas â Nyrsys Cofrestredig a Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd (HCSW). Mae hyn yn cael effaith ar ansawdd y gofal a ddarperir.

Mae'n hanfodol sicrhau bod unigolion yn cael y gwasanaeth sy'n briodol iddynt, a hynny yn y lle iawn ac wedi'i ddarparu gan staff sydd â'r wybodaeth, y profiad a sgiliau priodol.

### *6. Cyfle agored i drafod materion*

Yn dilyn y cyflwyniadau hyn, cadeiriodd Richard Jones MBE drafodaeth gyda'r gwesteion gwahoddedig. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Tynnwyd sylw at y ffaith bod AGGCC yn rhagweithiol o ran cofrestru'r cartrefi gofal sydd eu hangen cyn Ebrill 2018.
- Roedd pryder y byddai mwy a mwy o gartrefi gofal yn dadgofrestru gwelyau nyrsio, ac y bydd hyn yn cael effaith ar gomisiynu'r GIG ac yn ei wneud yn anoddach fyth i ddiwallu'r anghenion presennol ar gyfer gofal.
- Mae angen lefel ddiogel o nyrsys yn y sector gofal yn ogystal ag yn y GIG.
- Gellir erlyn yr Unigolyn Cyfrifol os ydynt yn methu â bodloni anghenion person.
- Mynegwyd pryder na allai'r rheoliadau a'r canllawiau yn eu ffurf presennol ddiogelu'r unigolion mwyaf bregus - a dyma'r union beth y dylai'r ddeddfwriaeth fod yn ei wneud.
- Mae'n bwysig bod eglurder ynghylch cynlluniau dirprwyo er mwyn peidio â gadael pobl sydd angen gofal ac sy'n derbyn gofal yn agored i niwed.

**Comisiynwyr:**

Teimlwyd bod mwy o graffu ar nyrsys yn y sector cartrefi gofal na nyrsys y GIG, a hynny tra bod llai o gefnogaeth ar eu cyfer nhw.

Nododd y Comisiynwyr bryderon ynghylch y posibilrwydd o Unigolion Cyfrifol yn goruchwylio cartrefi gofal o bell - oni bai bod y canllawiau'n cynghori yn erbyn hyn, efallai mai dyma'r model a fydd yn cael ei ddewis, a bydd yn cynyddu'r risg yn fawr i'r rhai sy'n derbyn gofal yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi gofal.

Mae angen comisiynu gwasanaethau ar y lefel gywir i ddiwallu anghenion. Gall hyn fod yn arbennig o heriol pan fo'r anghenion yn gymhleth ac yn amlweddog, i gomisiynwr sy'n chwilio am y pecyn mwyaf cynhwysfawr y gellir ei fforddio a hefyd i'r darparwyr, sydd â'r dasg o ddarparu gwasanaeth cynaliadwy o safon gydag adnoddau cyfyngedig

**Materion y gweithlu:**

Nodwyd nifer o bryderon mewn perthynas â'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio staff, cadw staff, a throsiant uchel staff, yn enwedig gweithwyr cymorth gofal iechyd, yn y sector hwn. Nid oes darlun cenedlaethol o'r gweithlu yng Nghymru i'n helpu ni i ddeall maint yr her.

Mae pryderon hefyd ynghylch argaeledd addysg a hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus, y cyfle i ddirprwyo'n ddiogel a pharodrwydd goruchwyliaeth glinigol ar gyfer nyrsys cofrestredig a gweithwyr cefnogi gofal iechyd yn y sector annibynnol.

Mae rhai darparwyr yn creu rolau newydd er mwyn llenwi'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac er bod ffocws wedi bod o ran addysg a hyfforddiant er mwyn cefnogi hyn, codwyd pryderon ynghylch cwmpas yr ymarfer a disgwyliadau unigolion o ganlyniad i hyn. Roedd pawb yn cytuno bod ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwyd yn hollbwysig, ynghyd â sicrhau bod staff mewn sefyllfa ddelfrydol i'w ddarparu.

Codwyd pryderon ynghylch maint ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r cyhoedd gan nad ar Gomisiynwyr a Darparwyr yn unig y bydd y rheoliadau'n effeithio, ond y cyhoedd yn y pen draw. Felly, mae angen i bobl fod yn hyderus y gallant ddod o hyd i gartref gofal perthnasol.  Nodwyd nad oedd y Canllaw Gofal Da a grewyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

Mae angen i berchnogion a rheolwyr cartrefi gofal benderfynu ar yr hyn y gallant ei ddarparu a sicrhau eu bod yn cael eu comisiynu am hyn yn unig, gan sicrhau nad oes newidiadau yn cael eu gwneud i'r SoP yn barhaus.

Nodwyd y gallai'r rheoliadau fod yn gyfle yn ogystal ag yn her: os caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu'n gywir, dylai helpu i gomisiynu am ofal o ansawdd, ond mae'r effeithiau ar gyfer timau Nyrsio Cymunedol yn parhau i beri pryder.

### *Cyrhaeddodd Aelodau'r Cynulliad y cyfarfod oddeutu 19:20:*

Rhoddodd Tina Donnelly drosolwg o'r drafodaeth er budd Aelodau'r Cynulliad a oedd newydd ymuno â'r cyfarfod.  Yna rhoddodd y panel grynodeb o'u cyfraniadau ac ailadroddodd y gwesteion eu hychwanegiadau i'r cyfraniadau a wnaed.

### *7. Camau y cytunwyd arnynt:*

- Cadarnhaodd Tina Donnelly y byddai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn codi'r pryderon a drafodwyd a oedd yn ymwneud â gweithredu'r rheoliadau yn eu cyfarfod nesaf gyda Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon.
- Byddai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn rhoi trosolwg o'r pryderon allweddol a godwyd yn ystod y trafodaethau blaenorol erbyn y bore canlynol (04.10.17) er mwyn i Aelodau'r Cynulliad eu defnyddio yn ystod eu cwestiynau ar iechyd a gofal cymdeithasol.

### *8. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol*

Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd

- Cadarnhaodd David Rees AC ei fod yn fodlon parhau i fod yn Gadeirydd ac nid oedd unrhyw enwebiadau pellach.
  - Enwebydd: Rhun ap Iorwerth AC
  - Eilydd: Suzy Davies AC

- Enwebwyd Tina Donnelly CBE TD DL, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, i barhau fel Ysgrifennydd y Grŵp heb wrthwynebiad.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan y rhai a oedd yn bresennol:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf (19 Hydref 2016 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf) ▯ Cofnodion y cyfarfod diwethaf (08 Mawrth 2017)

### *9. Sylwadau i gloi a diolchiadau – Richard Jones MBE, Aelod o Fwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Aelod o'r Cyngor dros Gymru*

Daeth Richard Jones MBE â'r drafodaeth i ben a diolchodd yn ffurfiol i aelodau'r panel, i bawb a oedd yn bresennol am gyfrannu at y cyfarfod, ac i Aelodau'r Cynulliad am fod yn bresennol ar ôl sesiwn hir yn y Cyfarfod Llawn.